

SL(6)158 – Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Darpariaeth Drosiannol a Darpariaeth Arbed) 2022

Cefndir a Diben

Mae'r [Rheoliadau](#) yn gwneud darpariaeth arbed a darpariaeth drosiannol mewn perthynas â'r mân ddiwygiadau, y diwygiadau canlyniadol a'r diddymiadau a nodir yn Atodlen 2 i Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021").

Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru o dan Ddeddf 2021 yn cael ei gyflwyno fesul cam. Mae'r Rheoliadau'n cynnwys y ddarpariaeth arbed a'r ddarpariaeth drosiannol sy'n ofynnol i ganiatáu'r broses gyflwyno fesul cam.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Mae rheoliad 2(1) yn cynnwys y diffiniad o "*plentyn*" ("*child*") trwy gyfeirio at "*adran 579(1) o Ddeddf 1996*". Mae adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996 yn cynnwys diffiniad o "*child*" a thybir mai dyma'r "*Deddf 1996*" y mae'r ddarpariaeth yn cyfeirio ati. Fodd bynnag, nid yw'r Rheoliadau hyn yn cynnwys diffiniad o "*Deddf 1996*".

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.



Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru fesul cam rhwng 1 Medi 2022 a 1 Medi 2026. Nodir bod hyn yn gyson â'r cynllun gweithredu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ond, ar hyn o bryd, nid oes darpariaethau i gychwyn Deddf 2021 yn y modd hwn.

Nid yw'n glir i'r Pwyllgor pam mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi'r cynllun cyflwyno fesul cam heb ddarparu ar gyfer y cyflwyniad fesul cam hwn yn y Rheoliadau. Byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor gael deall y rhesymau dros y dull hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu Technegol: *Ymateb*

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt adrodd. Nid ydym o'r farn y bydd pobl yn cael eu camarwain a chredwn y bydd y cyfeiriad at "Ddeddf 1996" yn cael ei ddarllen fel cyfeiriad at Ddeddf Addysg 1996, y cyfeirir ati yn llawn yn y diffiniad o "disgybl" yn y Rheoliadau. Byddwn yn cywiro'r diffiniad o "plentyn" er mwyn rhoi cyfeiriad at "Ddeddf Addysg 1996" yn lle'r cyfeiriad at "Ddeddf 1996" ar y cyfle cyntaf posibl.

Pwynt Craffu ar Rinweddau: *Ymateb*

Ymdrinnir â chychwyn darpariaethau yn Neddf 2021 fesul cam mewn nifer o orchmynion cychwyn yn y ffordd arferol. Bwriad y diwygiad a wneir gan y Rheoliadau yw galluogi hynny i ddigwydd o ystyried y cychwynwyd Atodlen 2 gan adran 84(1) o Ddeddf 2021 drannoeth y Cydsyniad Brenhinol.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

